# Newidiadau i'r Egwyddorion ar gyfer Cyfreithwyr Cymwys: Ymgynghoriad

Mawrth 2020

**Gair am yr ymgynghoriad hwn** .......... **3**

**Sut mae ymateb** .......... **4**

Holiadur ar-lein .......... 4

Ceisiadau a chwestiynau am addasiadau rhesymol .......... 4

Cyhoeddi ymatebion .......... 4

**Cefndir yr ymgynghoriad** .......... **5**

**Cynigion yr ymgynghoriad** .......... **7**

Asesu gallu iaith Gymraeg cyfreithiwr cymwys .......... 7

Ymestyn y gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwys sydd wedi'u heithrio o rannau o SQE2 .......... 8

**Cwestiynau'r ymgynghoriad yn llawn** .......... **11**

# Gair am yr ymgynghoriad hwn

Rydym yn ymgynghori ar gynigion i wneud mân newidiadau i'n hegwyddorion ar gyfer dau fath o gyfreithwyr sy'n ceisio cael eu derbyn yng Nghymru a Lloegr, ar ôl cyflwyno'r Arholiad Cymhwyso Cyfreithiwr (SQE):

- y rheini sydd wedi cymhwyso mewn awdurdodaeth y tu allan i Gymru a Lloegr
- unrhyw gyfreithiwr sydd wedi'i reoleiddio gan reoleiddiwr gwasanaethau cyfreithiol cymeradwy arall yng Nghymru a Lloegr ('cyfreithwyr cymwys').

Mae angen gwneud y newidiadau i wneud yn siŵr bod ein hegwyddorion yn cyd-fynd â Rhan 1 o'n Rheoliadau Awdurdodi Unigolion ('rheoliadau derbyn yr SQE'), a bod yr holl gyfreithwyr cymwys yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg.

Cafodd yr Egwyddorion ar gyfer Cyfreithwyr Cymwys (yr egwyddorion) a rheoliadau derbyn yr SQE eu cymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol ym mis Mawrth 2018. Byddant yn dod i rym, yn amodol ar ganlyniad ein hail gais i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, ar ddyddiad i'w bennu gan Fwrdd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Ni fydd hyn cyn hydref 2021.

Gallwch weld:

- ein hasesiad cychwynnol o'r effaith yn atodiad 2
- yr Egwyddorion diwygiedig ar gyfer Cyfreithiwr Cymwys, gyda'r newidiadau arfaethedig wedi'u marcio, yn atodiad 3

Mae'r ymgynghoriad yn rhedeg o 27 Mawrth tan 8 Mai 2020.

Ar ôl i'r ymgynghoriad hwn ddod i ben, byddwn yn mynd ati nesaf i gasglu'r ymatebion ynghyd, a'u dadansoddi. Byddwn wedyn yn penderfynu ar ba gynigion i'w datblygu ac yn cynhyrchu asesiad terfynol o'r effaith.

# Sut mae ymateb

## Holiadur ar-lein

Mae ein holiadur ar-lein yn ffordd hwylus a hyblyg o ymateb. Gallwch gadw eich ymateb wrth fynd a llenwi'r holiadur yn eich amser eich hun. Gallwch lwytho copi o'ch ymateb i lawr cyn ei gyflwyno.

Dechrau ymateb ar-lein nawr. [Mewnosodwch yr URL perthnasol]

## Ceisiadau a chwestiynau am addasiadau rhesymol

Rydym yn cynnig addasiadau rhesymol. Darllenwch ein polisi i gael rhagor o wybodaeth.

Cysylltwch â ni [mewnosodwch y cyfeiriad e-bost perthnasol] os oes angen i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio fformat gwahanol neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad.

## Cyhoeddi ymatebion

Byddwn yn cyhoeddi ac yn enwi eich ymateb oni bai eich bod yn gofyn i ni beidio.

# Cefndir yr ymgynghoriad

1. Rydym yn bwriadu cyflwyno, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol, asesiad canoledig newydd i'r holl ddarpar gyfreithwyr – yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr (SQE) – yn 2021.

2. Rydym am gael sicrwydd bod cyfreithwyr cymwys sy'n dymuno cael eu derbyn fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr yn meddu ar brofiad neu gymwysterau proffesiynol sydd wedi'u cyflenwi â'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau angenrheidiol i ymarfer fel cyfreithiwr.

3. Mae'n bosib y bydd rhai cyfreithwyr cymwys, yn dibynnu ar lefel eu gwybodaeth a'u profiad, yn gallu cael eu heithrio'n rhannol neu'n gyfan gwbl rhag cyflawni asesiad SQE2.

4. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw amlinellu'r cynigion i ddiwygio ein Hegwyddorion ar gyfer Cyfreithwyr Cymwys sy'n ceisio cael eu derbyn yng Nghymru a Lloegr, ar ôl cyflwyno'r SQE. Mae'r egwyddorion yn amlinellu ein gofynion trosfwaol, ein dull gweithredu mewn cysylltiad ag eithriadau, a chydnabod cymwysterau proffesiynol, profiad proffesiynol a gofynion o ran gallu ieithyddol.

5. Dyma rydym yn ei gynnig:

    - Cael gwared ar y gofyniad bod cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu heithrio o'r SQE yn dod o awdurdodaeth sy'n cael ei chydnabod gennym.
    - Ei gwneud yn glir y gall cyfreithwyr cymwys ddangos y gofyniad iaith naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, yn unol â'n Rheoliadau Awdurdodi Unigolion.
    - Ymestyn y gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwys sydd wedi'u heithrio o rannau o SQE2 (yn ogystal ag SQE2 yn ei gyfanrwydd, fel yr oedd y drafft gwreiddiol yn ei nodi), os oes gennym amheuon difrifol a phendant am eu gallu ieithyddol.
    - Tynnu'r gair "prawf" o'r adran gofyniad iaith.

6. Rydym yn archwilio effaith a buddion ein cynigion yn ein hasesiad cychwynnol o'r effaith (atodiad 2). Byddwn yn defnyddio'r ymgynghoriad i ymgysylltu â rhanddeiliaid i archwilio effaith ein cynigion ymhellach.

7. Mae ein hegwyddorion diwygiedig yn atodiad 3. Rydym hefyd yn ceisio safbwyntiau ar ein canllawiau diwygiedig i gyfreithwyr cymwys ar sut gallant ddangos eu gallu Cymraeg neu Saesneg (atodiad 1).

8. Mân newidiadau yw'r rhain ac rydym yn credu bod ymgynghoriad chwe wythnos yn briodol. Yn ystod yr ymgynghoriad byddwn yn ymgysylltu â grwpiau allweddol a chyrff cynrychioladol, gan gynnwys y rheini mewn awdurdodaethau tramor y

bydd ganddynt ddiddordeb yn y newidiadau hyn fwy na thebyg, ond rydym yn croesawu safbwyntiau gan yr holl randdeiliaid.

9. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn a chyn gwneud unrhyw newidiadau i'n hegwyddorion, byddwn yn ceisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol. Os cânt eu cymeradwyo, bydd ein hegwyddorion diwygiedig yn dod i rym yr un pryd ag y caiff yr SQE ei gyflwyno. Ni fydd hyn yn digwydd cyn mis Medi 2021.

# Cynigion yr ymgynghoriad

**Cael gwared ar y gofyniad bod cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu heithrio o'r SQE yn dod o awdurdodaeth sy'n cael ei chydnabod gennym**

### Ein cynnig

10. Mae ein hegwyddorion yn amlinellu ein dull gweithredu ar gyfer cydnabod gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu heithrio o'r SQE.

11. Maen nhw'n ein galluogi i gael sicrwydd bod profiad neu gymwysterau proffesiynol cyfreithiwr cymwys wedi'u cyflenwi â'r sgiliau, y wybodaeth a'r cymwyseddau angenrheidiol i ymarfer fel cyfreithiwr.

12. Rydym yn cynnig gael gwared ar y gofyniad bod cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu heithrio o'r SQE yn dod o awdurdodaeth sy'n cael ei chydnabod gennym. Ein hamcan yw gwneud yn siŵr bod profiad neu gymhwyster proffesiynol cyfreithiwr cymwys yn cyfateb i'r SQE neu i'r rhan berthnasol ohono. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddadansoddi a chydnabod y cymhwyster maen nhw wedi'i ennill, ynghyd ag unrhyw brofiad maen nhw wedi'i ennill. Caiff hyn ei asesu yn erbyn cynnwys a safon yr SQE, neu'r rhan berthnasol ohono.

13. Mae'r pwyslais hwn ar y cymhwyster a'r profiad yn golygu nad oes rhaid i ni asesu, ar wahân, nodweddion penodol yr awdurdodaeth yr enillwyd y cymhwyster ynddi neu y mae'r cyfreithiwr wedi bod yn ymarfer ynddi. Felly, nid yw cydnabod yr awdurdodaeth ei hun yn rhan hanfodol o'r broses.

**Cwestiwn 1**
**Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gael gwared ar y gofyniad bod cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu heithrio o'r SQE yn dod o awdurdodaeth sy'n cael ei chydnabod gennym?**

## Asesu gallu iaith Gymraeg cyfreithwyr cymwys

### Ein cynnig

14. Rydym yn rheoleiddio cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr ac yn cydnabod y gallant siarad Cymraeg, Saesneg neu'r ddwy iaith. Mae Rheoliad 6.2(b) yn Rheoliadau Awdurdodi Unigolion yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn darparu mai un o'r gofynion cymhwyso ar gyfer tystysgrif ymarfer yw bod gan yr ymgeisydd allu digonol o ran Cymraeg neu Saesneg yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn dibynnu ar yr iaith mae'n ei defnyddio.

15. Ar hyn o bryd, mae'r Egwyddorion yn awgrymu y gall cyfreithiwr cymwys ddangos ei fod yn bodloni'r gofyniad iaith drwy gyfrwng Saesneg, ond nid ydynt yn crybwyll y Gymraeg. Felly mae hynny'n anghyson â'r rheoliad hwnnw.

16. Felly, rydym yn cynnig diwygio'r Egwyddorion i'w gwneud yn glir bod cyfreithwyr cymwys yn gallu dangos eu gallu ieithyddol yn Gymraeg neu'n Saesneg wrth wneud cais am eu tystysgrif ymarfer. Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y meini prawf yr ydym yn cynnig eu defnyddio i asesu iaith, sydd wedi'u hamlinellu yn atodiad 1.

17. Mae'r cynnig hwn yn gwneud yn siŵr nad yw ymgeiswyr Cymraeg, sy'n dymuno dangos eu gallu ieithyddol yn Gymraeg, dan anfantais. Bydd gan ymgeiswyr yr hawl i ymarfer ar draws Cymru a Lloegr, ni waeth a ydynt wedi dangos eu gallu ieithyddol yn Gymraeg neu'n Saesneg.

**Cwestiwn 2**
**Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r egwyddorion i ychwanegu gofyniad prawf iaith Gymraeg er mwyn i gyfreithwyr cymwys allu dewis dangos eu gallu ieithyddol yn Gymraeg neu'n Saesneg?**

## Ymestyn y gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwys sydd wedi'u heithrio o rannau o SQE2

### Ein cynnig

18. Mae ein cynigion yn caniatáu i ni gymhwyso gofyniad iaith i gyfreithwyr cymwys pan fyddwn wedi cydnabod bod eu cymhwyster/cymwysterau proffesiynol neu eu profiad proffesiynol yn cyfateb i SQE2 **yn ei gyfanrwydd**.

19. Rydym yn cynnig diwygio ein hegwyddorion i ymestyn y gofyniad iaith i'r cyfreithwyr cymwys hynny a allai fod wedi'u heithrio'n **rhannol** o SQE2. Y rheswm am hyn yw efallai na fydd cyfreithiwr cymwys sydd wedi'i eithrio o ran o SQE2 wedi dangos y pedair elfen o allu ieithyddol (gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu) yn y rhan y mae wedi'i heistedd. Felly, efallai y bydd gennym amheuon difrifol a phendant am ei allu ieithyddol.

20. O dan reoliadau derbyn yr SQE, gall cyfreithwyr cymwys fod wedi'u heithrio o asesiadau cyfan yn yr SQE, ond nid o elfennau mewn asesiad. Mae'r model yr ydym wedi'i ddefnyddio fel peilot ar gyfer SQE2 yn rhag-weld un asesiad ag un penderfyniad pasio/methu yn seiliedig ar berfformiad yr ymgeisydd ar draws amrywiaeth o dasgau. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y penderfyniad terfynol a gymerir ynghylch dyluniad SQE2, a gan gofio y gallai dyluniad asesiad unrhyw arholiad newid yn y dyfodol, rydym yn dymuno gwneud yn siŵr bod ein Hegwyddorion yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen arnom i fynnu tystiolaeth o allu ieithyddol os oes gennym amheuon difrifol a phendant, pe bai angen.

21. I osgoi amheuaeth, ni fydd gofyniad iaith Cymraeg neu Saesneg ar gyfer cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu derbyn ar sail Erthygl 10 Cyfarwyddeb Sefydlu 98/5/CE (wedi ymarfer fel Cyfreithiwr Ewropeaidd Cofrestredig am dair blynedd o leiaf).

22. Rydym yn disgwyl mai dim ond lleiafrif o gyfreithwyr cymwys fydd yn gorfod dangos gallu ieithyddol drwy brawf gallu Cymraeg neu Saesneg.

23. Bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr cymwys yn ein bodloni o ran eu gallu Saesneg drwy gyflawni'r SQE yn ei gyfanrwydd neu rannau ohono. Os byddwn yn cynnig asesiad yr SQE yn Gymraeg, byddant yn gallu dangos gallu ieithyddol drwy basio'r SQE yn Gymraeg.

24. Rydym yn credu y bydd ein mesurau arfaethedig yn helpu i leihau'r gost a wynebir gan rai cyfreithwyr cymwys y mae'r gofyniad yn berthnasol iddynt. Ar ben hynny, bydd ein dull yn annog yr amrywiaeth ehangaf bosibl o gyfreithwyr cymwys i geisio cymhwyso, gan ein galluogi i gynnal y safonau uchel rydym yn eu disgwyl ar yr un pryd.

25. Fodd bynnag, gallai ein cynnig achosi costau i rai cyfreithwyr cymwys wrth ddangos gallu Cymraeg neu Saesneg drwy brawf gallu Cymraeg neu Saesneg.

26. Rydym yn cydnabod y gallai ein cynnig wahaniaethu'n anuniongyrchol ar sail hil neu genedligrwydd i ymgeiswyr sydd wedi'u geni a/neu eu magu mewn gwlad lle nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg.

27. Byddwn yn lliniaru'r risgiau hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Gweithredu'r gofyniad iaith dim ond mewn achosion lle mae gennym amheuon difrifol a phendant am allu Cymraeg neu Saesneg cyfreithiwr cymwys, a rhoi sylw dyledus i gymwysterau a phrofiad personol bob unigolyn.

- Galluogi ymgeiswyr i ddangos gallu Cymraeg neu Saesneg drwy amrywiaeth eang o ddulliau (atodiad 1), gan gynnwys cymwysterau a enillwyd ar lefel addysg uwch mewn gwledydd ar wahân i'r DU.

28. Os byddwn yn mabwysiadu'r dull hwn, rydym yn cynnig tynnu'r gair "prawf" o adran gofyniad iaith ein hegwyddorion. Rydym yn credu ei fod yn ddiangen oherwydd dydy "prawf" ddim yn adlewyrchu'r hyblygrwydd sydd ar gael i gyfreithiwr cymwys ddangos ei allu ieithyddol os oes angen.

29. Pe baem yn rhoi ein cynigion ar waith, byddwn yn monitro'r effaith i wneud yn siŵr nad yw cyfreithwyr cymwys yn wynebu rhwystrau anfwriadol i fynediad i'r alwedigaeth.

**Cwestiwn 3**
**Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r egwyddorion i'w hymestyn i gyfreithwyr cymwys sydd wedi'u heithrio o rannau o SQE2?**

**Cwestiwn 4**
**Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dangos gallu Cymraeg neu Saesneg, a'r cynnig i dynnu'r gair "prawf" o'n hegwyddorion i gyd-fynd â hynny?**

**Cwestiwn 5**

**Oes gennych ragor o wybodaeth am ein cynigion neu sut rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith, er mwyn dylanwadu ar ein hasesiad o'r effaith?**

# Cwestiynau'r ymgynghoriad yn llawn

Rydym yn awyddus i gael eich barn ar ein cynigion. Dyma restr ddidoriad o'n cwestiynau:

1. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gael gwared ar y gofyniad bod cyfreithwyr cymwys sy'n ceisio cael eu heithrio o'r SQE yn dod o awdurdodaeth sy'n cael ei chydnabod gennym?

2. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r egwyddorion i ychwanegu gofyniad prawf iaith Gymraeg er mwyn i gyfreithwyr cymwys allu dewis dangos eu gallu ieithyddol yn Gymraeg neu'n Saesneg?

3. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ddiwygio'r egwyddorion i'w hymestyn i gyfreithwyr cymwys sydd wedi'u heithrio o rannau o SQE2?

4. Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dangos gallu Cymraeg neu Saesneg, a'r cynnig i dynnu'r gair "prawf" o'n hegwyddorion i gyd-fynd â hynny?

5. Oes gennych ragor o wybodaeth am ein cynigion neu sut rydym yn bwriadu eu rhoi ar waith, er mwyn dylanwadu ar ein hasesiad o'r effaith?